Llythyr Ymgynghori

EDUCATION AND LIFELONG LEARNING COMMITTEE

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Awst 2002

At sylw'r rhai yr ymgynghorir â hwy

ADOLYGIAD POLISI: YSGOL Y DYFODOL

Yn ystod tymor yr hydref, bydd y Pwyllgor yn cychwyn ar adolygiad polisi o ysgol y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y newidiadau posibl yn rôl a dulliau gweithio ysgolion cynradd ac uwchradd dros y deng i bymtheng mlynedd nesaf ac yn argymell y datblygiadau polisi fydd eu hangen er mwyn dygymod â'r newidiadau arfaethedig hyn, gan ddatblygu ar y strategaeth a nodwyd yn *Y Wlad sy'n Dysgu.*

Bydd yr adolygiad polisi'n canolbwyntio'n benodol ar:

- Yr ysgol yn adnodd cymunedol;
- Y defnydd a wneir ar dechnoleg gwybodaeth a datblygiadau yn y maes hwn;
- Dulliau dysgu;
- Y cwricwlwm;
- Cyllid;
- Cynnig cyfleoedd newydd ac annog cyfranogaeth; ac
- Ychwanegu gwerth at addysg a'r profiad o fod yn yr ysgol.

Bydd yr adolygiad polisi hefyd yn ystyried prif themâu'r Cynulliad, sef:

- Datblygu cynaliadwy;
- Cyfle cyfartal;
- Cynhwysiant cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor yn eich gwahodd i gyfrannu at yr adolygiad drwy gyflwyno'ch sylwadau ar y meysydd a restrwyd uchod. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus i glywed syniadau cwbl wreiddiol. Caiff aelodau'r Pwyllgor grynodeb o'r holl gyfraniadau yn ystod tymor yr hydref.

Bwriad y Pwyllgor yw cwblhau'r adolygiad erbyn Pasg 2003 a chyhoeddi adroddiad llawn a rhestr o argymhellion.

Gallwch gyfrannu drwy anfon eich sylwadau, ar bapur, ataf i yn y cyfeiriad uchod neu drwy e-bostio education.comm@wales.gsi.gov.uk

Os gwyddoch am gyrff neu unigolion a hoffai gyfrannu at yr adolygiad, byddwn yn falch iawn o gael gwybod sut i gysylltu â hwy. Mae copi o'r llythyr hwn a rhestr o'r unigolion a'r cyrff sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar wefan y Pwyllgor: www.cymru.gov.uk

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n bwriadu cyhoeddi'r cyfraniadau a dderbynnir.

Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r cyfraniad, gan fod hynny'n rhoi hygrededd i'r ymgynghoriad. Os nad ydych am gael eich enwi, a fyddech cystal â nodi hynny yn eich ymateb. Fe'ch gwahoddir i gyfrannu drwy anfon eich sylwadau ataf i **erbyn dechrau Tachwedd.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi drwy ffonio 029 20 898164 neu'r Dirprwy Glerc, Holly Pembridge, 029 20 898019.

Yn gywir,

Chris Reading
Clerc y Pwyllgor